**Polisi Strategol Dd: Newid yn yr Hinsawdd (Dd)**

Bydd cyfraniad y mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r Parc Cenedlaethol yn ei wneud i newid yn yr hinsawdd yn cael ei leihau ac ymdrinir ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar y Parc Cenedlaethol yn y Cynllun hwn trwy:

i. Sicrhau nad yw unrhyw waith arfordirol a diogelu rhag llifogydd, gan gynnwys adlinio rheoledig, yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol, yn cael unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd neu y gellid eu lliniaru'n foddhaol.
ii. Gwarchod a gwella ardaloedd coetir, pridd yr ucheldir a thir mawnog er mwyn cynorthwyo i gadw carbon, dal dŵr ac atal llifogydd.
iii. Hwyluso'r broses o helpu rhywogaethau i addasu a mudo trwy ddiogelu coridorau cysylltu cynefinoedd a chyfoethogi bioamrywiaeth.
iv. Cyfeirio datblygiadau i leoliadau sy'n lleihau'r angen i deithio yn enwedig mewn car preifat.

Ni ddylid darllen y polisi hwn ar ben ei hun, mae'n bwysig bod y cynllun yn cael ei ddarllen yn ei chyfanrwydd, mae llawer o'r polisïau'n rhyng-gysylltiedig a gall nifer o bolisïau fod yn berthnasol i un cynnig datblygu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y polisi hwn ar dudalen 51 o'r Cynllun Datblygu Lleol.